**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL - DYDD LLUN, 8 CHWEFROR 2021 DYDD LLUN, 8 CHWEFROR 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors G. L. Davies
M. Day
J. Hill
C. Meredith
T. Smith
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett
K. Pritchard

WITH:

| |
|---|
| Helen Jones (Swyddog) |
| Sally-Ann Evans (Swyddog) |
| Cynghorydd Keith Pritchard (Aelod Pwyllgor) |
| Steve Osborne (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd K. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rowson. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **FFIOEDD TRWYDDEDU STATUDOL 2021/22**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm – Safonau Masnach a Thrwyddedu.<br><br>Amlinellodd y Rheolwr Tîm – Safonau Masnach a Thrwyddedu yr adroddiad a hysbysodd Aelodau am yr opsiynau ar gyfer ffioedd trwyddedau gamblo ar gyfer 2021/22. Dywedodd y Rheolwr Tîm fod y ffioedd hyn yn dod dan gylch gorchwyl y Pwyllgor Trwyddedu Statudol i gael eu hystyried.<br><br>Nododd y Rheolwr Tîm – Safonau Masnach y pwysau a roddwyd ar fusnesau yn ystod y pandemig ac oherwydd y cyfnod anodd a heriol hwn ar gyfer busnesau a hefyd y cyhoedd yn ehangach, cynigwyd fod ffioedd yn parhau heb newid er mwyn rhoi cymorth y mae ei fawr angen. Byddai'r opsiwn a ffafrir yn gweld ffioedd o 2020/2021 fel yr amlinellir yn Atodiad 1 yn symud ymlaen i 2021/2022. Er ei bod yn arferol cynnal cyfnod ymgynghori ar gynnydd ffioedd, dywedodd y Rheolwr Tîm nad oedd angen ymgynghori os nad oedd newidiadau i'r ffioedd.<br><br>Oherwydd na chytunwyd ar gynnydd ffioedd mewn blynyddoedd blaenorol er fod cyllidebau incwm wedi codi yn unol â'r Gofrestr Ffioedd a Thaliadau, hysbysodd y Rheolwr Tîm yr Aelodau fod pwysau cost ar hyn o bryd ar incwm y Pwyllgor Trwyddedu o £33,000 ar gyfer 2020/21. Er na chafodd y Gyllideb Incwm ei chynyddu ar gyfer 2021/22, byddai'r pwysau cost yn parhau os na eir i'r afael â hynny, gyda phosibilrwydd cynnydd pe byddai gostyngiad yn nifer y trwyddedau a geisir.<br><br>Ychwanegodd y Rheolwr Tîm hefyd y gallai'r opsiwn a ffafrir arwain at feirniadaeth gan nad yw lefelau ffioedd yn adfer costau llawn y gwasanaeth. Fodd bynnag, dywedwyd fod angen cydbwyso hyn gyda'r pwysau digynsail ar fusnesau a'r cyhoedd yn ehangach yn ystod y pandemig byd-eang.<br><br>Rhoddodd y Rheolwr Tîm – Safonau Masnach a Thrwyddedu | |

| | | |
|---|---|---|
| | esboniad manwl o'r ffioedd fel yr amlinellir yn yr Atodiad i'r adroddiad.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y pwysau cost a gofynnodd os byddai unrhyw ganlyniadau niweidiol i'r Gwasanaethau Trwyddedu pe na bai newid yn y ffioedd. Dywedodd y Rheolwr Tîm y byddai'n anodd dynodi unrhyw oblygiadau fyddai gan y penderfyniad ar y Tîm Trwyddedu, fodd bynnag mae'r Tîm Adnoddau a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gwybod am y pwysau cost. Mewn ymateb i bryderon pellach am ostwng nifer staff y Tim, dywedwyd nad oedd unrhyw gynnig i i ostwng nifer y staff ar hyn o bryd.<br><br>Yn dilyn trafodaethau pellach, teimlid na fedrai'r Pwyllgor gynyddu'r ffioedd Trwyddedu Statudol yn dilyn y gymeradwyaeth i gynnal y ffioedd Trwyddedu Cyffredinol a'i bod yn hollbwysig fod yr Awdurdod Lleol yn cefnogi busnesau yn ystod y cyfnod anodd hwn. Felly<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a bod Aelodau'n cefnogi'r cynnig i gadw lefel ffioedd 2020/21 yn 2021/22. | |